**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 768

# Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

**Darpariaethau Deddf 2005 sy'n dod i rym ar 16 Mawrth 2006**

**2.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 yn dod i rym ar 16 Mawrth 2006—

(a) adran 47 (diddymu'r gofyniad i gontractio swyddogaethau gwaredu gwastraff allan);

(b) adran 53 (y pŵer i awdurdodau casglu gwastraff ddefnyddio eu pwerau ymchwilio o dan adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i ymchwilio i ddigwyddiadau neu dramgwyddau o ran cyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 1990);

(c) yn Atodlen 4 (mân ddiwygiad a diwygiadau canlyniadol), paragraff 4; ac

(ch) yn Rhan 4 (gwastraff) o Atodlen 5, y diddymiadau i Ddeddf 1990 ac eithrio'r diddymiad i adran 33 o'r Ddeddf honno.